

Gwobrau Dysgu
Oedolion 2022

Ysbrydoli!
Inspire!

Adult Learning
Awards 2022

Sut i gyflwyno ffurflen enwebu lwyddiannus

Caiff Gwobrau Ysbrydoli! eu trefnu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Croesawn enwebiadau ar gyfer pobl, sefydliadau a phrosiectau sydd wedi profi grym trawsnewidiol dysgu.

Yn y canllawiau hwn byddwch yn canfod:

- Sut i gyflwyno eich enwebiad a sut i wneud pwt fideo
- Sut i ysgrifennu enwebiad cryf
- Dyddiadau allweddol ar gyfer proses Gwobrau Ysbrydoli!

Sut i gyflwyno eich enwebiad:

E-bost – Gallwch lenwi a chyflwyno eich enwebiad ysgrifenedig yn defnyddio'r [ffurflen enwebu](#). Ar ôl ei llenwi, anfonwch eich ffurflen at: inspire@learningandwork.org.uk. Os gallwch, gofynnir i chi anfon eich ffurflen enwebu fel dogfen Word yn hytrach na PDF, os nad ydych yn defnyddio'r ffurflen ar-lein.

Ar-lein – Llenwi eich enwebiad ar ein [ffurflen lein](#) – gofynnir i chi nodi y bydd angen llenwi'r ffurflen ar-lein i gyd ar yr un pryd. Rydym felly yn argymhell eich bod yn ysgrifennu eich datganiadau fel [dogfen Word](#) cyn cychwyn.

Ffilm – Gallwch gyflwyno eich datganiadau enwebu drwy bwt fideo byr heb fod yn fwy na 3 munud. Dylid llenwi adrannau 1 a 3 yn y [ffurflen enwebu](#), gwneud eich pwt fideo a'i lanlwytho ar [YouTube](#) fel dolen *Heb ei rhestru* neu *Preifat* (dim ond y Sefydliad Dysgu a Gwaith fydd yn ei weld!) – anfonwch eich enwebiad a'ch pwt fideo at: inspire@learningandwork.org.uk. Fel arall, gellir anfon enwebiad a phytiau fideo yn ddiogel drwy [WeTransfer](#).

Cynghorion ar sut i ffilmio eich datganiadau enwebu:

1. Cyn cychwyn, [defnyddiwch adran 2 yn y ffurflen enwebu](#) fel canllaw ar gyfer eich datganiad llafar. Bydd hyn yn eich helpu i ffurfio a chyfleu eich stori yn y ffordd orau, fydd yn cynnwys yr wybodaeth a'r manylion yr edrychwn amdanynt. Gofynnir i'ch pwt beidio bod yn fwy na 3 munud a chofiwch ddweud yn y recordiad beth yw eich enw.
2. Os hoffech wneud hynny, *efallai* y byddwch am ymarfer eich datganiad gwpl o weithiau cyn i chi anfon y pwt fideo terfynol.
3. Defnyddio'r ddyfais orau sydd gennych. Gallai hyn fod yn ffôn symudol gyda camera mewnol, iPad neu lechen, camera digidol, neu gallwch wneud recordiad ohonoch eich hun ar Zoom.
4. Ffilmio eich pwt mewn ardal gyda goleuadau da, osgoi ystafelloedd prysur – gallwch wneud y pwt yn eich man dysgu, gwaith neu gartref. Os gallwch, eisteddwch yn wynebu ffenestr i gael y golau gorau.
4. Sicrhau y caiff eich ffilm ei chadw yn y ffurf gywir tebyg i MP4 neu MOV. Mae'r rhan fwyaf o ddyfeisiau yn defnyddio MP4, ond os ydych yn ansicr, efallai y byddwch eisiau gofyn i rywun eich helpu.
6. Os gallwch, gofynnwch i ffrind, cydweithiwr neu aelod teulu dynnu'r pwt fideo drosoch. Yn lle hynny, gallwch osod y camera ar fwrdd neu dripod a gosod y camera i recordio eich pwt fideo.
7. Unwaith y byddwch yn hapus gyda'r pwt fideo, mae gennych ddau opsiwn. Gallwch ei lanlwytho i [YouTube](#) fel *preifat* neu *heb ei restru* (dim ond y Sefydliad Dysgu a Gwaith fydd yn gweld hyn!). Anfonwch y ddolen ynghyd [â'ch ffurflen enwebu](#) (llenwi adran 1 a 3) at inspire@learningandwork.org.uk – neu gallwch anfon eich pwt fideo a'ch enwebiad yn ddiogel drwy [WeTransfer](#).

Rhai dolenni defnyddiol i'ch helpu i ddefnyddio YouTube a We Transfer:

[Sut i greu cyfrif ar YouTube](#)

[Sut i lanlwytho fideo YouTube](#)

[Sut i ddefnyddio WeTransfer](#)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, anfonwch e-bost at:

inspire@learningandwork.org.uk

Sut i ysgrifennu ffurflen enwebu gref:

Yr allwedd i ysgrifennu enwebiad da yw rhoi gwybodaeth benodol i'r panel beirniaid.

Dylai ffurflenni enwebu ddangos y llwyddiannau dysgu a'r effaith a gânt. Gallwch ddangos yr effaith ar gyfleoedd bywyd, rhyngweithio teuluol, ymgysylltu â'r gymuned. Gall yr enwebiad ddangos sut mae cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu yn cael eu creu, sut y defnyddir syniadau newydd i drin anghenion byd-eang a lleol.

- Ysgrifennu brawddegau disgrifiadol sy'n gryno ac yn rhoi manylion penodol.
- Cefnogi eich enwebiad gyda'ch sylwadau eich hun yn ogystal â gwybodaeth ansoddol a meintiol, dywedwch wrthym pam fod eich enwebiad yn haeddu ennill Gwobr Ysbrydol!
- Rhoi trosolwg cyflawn – dweud stori yn eich enwebiad – dod ag ef yn fyw gyda disgrifiadau o'r effaith. Gosod y llwyfan, gyda chefnidir, disgrifio'r dysgu a'r hyn a newidiodd fel canlyniad – beth am gynlluniau ac uchelgais ar gyfer y dyfodol?

Cyngor da ar gyfer eich enwebiad:

Teipio eich enwebiad mewn dogfen Word yn gyntaf:

Os ydych yn cyflwyno eich enwebiad ar-lein, bydd hyn yn ei gwneud yn haws i wirio a chywiro eich enwebiad cyn ei gopïo a'i ludo i'r ffurflen. Mae'n rhaid cwblhau cais ar-lein i gyd ar yr un tro.

Bod yn fanwl:

Os nad ydych yn adnabod y person yr ydych yn ei enwebu, rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch. Gofynnwch am wybodaeth gan bobl eraill i gryfhau'r enwebiad. Disgrifiwch y nodweddion unigryw sy'n fwy na dim ond dweud fod y sawl a enwebir yn berson gwych neu neis.

Dewis y categori cywir

Darllen y diffiniadau categori a gwneud enwebiad sy'n cyfateb â meini prawf y wobr. Edrychwn am enwebiadau gan ddysgwyr unigol, gan brosiectau, grwpiau cymunedol a sefydliadau i adlewyrchu themâu neilltuol. Cyfeirio at y meini prawf yn eich enwebiad.

Rhoi enghreifftiau da:

Esbonio bob amser pam eich bod yn enwebu a rhoi enghreifftiau sy'n cyfateb â'r meini prawf – y dysgu sy'n gysylltiedig, y gwahaniaeth a wnaed a cheisio cefnogi hynny gyda dyfyniadau neu dystiolaeth arall.

Esbonio'n iawn:

Gosod y llwyfan gyda'ch enwebiad – pwy neu beth ydych chi'n enwebu, pam eich bod yn enwebu. Dywedwch fwy wrthym am yr unigolyn, y prosiect neu'r grŵp cymunedol. Unrhyw rwystrau a gafodd eu goresgyn, cynlluniau newydd, cymunedau neilltuol a gyrhaeddwyd. Dywedwch wrthym am yr effaith ar eu dysgu a/neu fywyd pobl eraill.

Gwybodaeth gefndir:

Gellir cyflwyno dogfennau cefnogi fel rhan o'ch enwebiad, tebyg i ddolenni gwefan, ffotograffau, erthyglau newyddion, dolenni cyfryngau cymdeithasol a llythyrau cefnogi. Cadwch y cyfan yn fyr a pherthnasol.

Gwirio'r holl wybodaeth yn yr enwebiad:

Dylid gwirio pob enwebiad yn ofalus i wirio fod yr holl wybodaeth a gyflwynir yn gywir ac yn cydymffurfio â'n canllawiau.

Sut i strwythuro eich enwebiad:

Datganiad Agoriadol

Dechrau gyda datganiad clir, uniongyrchol a phenodol i osod y llwyfan ar gyfer eich enwebiad. Cynnwys digon o wybodaeth i'r panel ddod yn gyfarwydd gyda'r unigolyn, prosiect neu sefydliad. Disgrifio unrhyw heriau penodol a wynebwyd, dysgu a wnaed a chanlyniadau neu nodau a gyrhaeddwyd. Rhestru'r wybodaeth bwysicaf yn yr ychydig frawddegau cyntaf ac yna ychwanegu fel sydd angen.

Cyfiawnhad:

Er fod y cyfiawnhad yn gryno, ni ddylai fod yn amwys. Dylid osgoi dweud pethau cyffredinol ysgubol a gwneud i bob brawddeg gyfrif. Mae'r panel dethol yn dibynnu ar eich geiriau i roi darlun cadarnhaol, ffeithiol iddynt. Dywedwch eich stori – bydd esbonio ymddygiad manwl a rhoi enghreifftiau penodol yn ei gwneud yn amlwg pam y dylid cydnabod eich enwebiad.

Datganiad Cloi:

Dweud wrthym beth yw'r camau nesaf i'ch unigolyn, prosiect neu sefydliad ar eu taith ddysgu. Disgrifio beth yw barn pobl eraill am yr enwebiad (e.e. cyd-ddysgwyr, tiwtoriaid neu weithwyr a chyflogwyr). Crynhoi'r datganiad drwy ddweud wrthym beth yw'r prif reswm pam fod y sawl a enwebwch yn haeddu ennill Gwobr Ysbrydoli!

Dyddiadau allweddol ar gyfer proses Gwobrau Ysbrydoli!

- Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau Ysbrydoli! Addysg Oedolion yw: dydd Mawrth 1 Mawrth 2022.
- Hysbysir holl enillwyr Gwobrau?! Ysbrydoli am eu henwebiadau llwyddiannus erbyn diwedd mis Mawrth neu ddechrau Ebrill – mae hyn er mwyn rhoi digon o amser i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a phanel annibynnol o feirniaid i brosesu a dewis enillwyr gwobrau yn deg.
- Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hysbysu'r sawl a enwebwyd na chawsant eu dethol fel enillwyr a'r ymgeiswyr ar y rhestr fer erbyn mis Mai 2022.
- Ni chafodd dyddiad seremoni Gwobrau Ysbrydoli! ei gadarnhau hyd yma. Os hoffech gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwobrau, [edrychwch ar ein gwefan](#) o bryd i'w gilydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am enwebiadau Gwobrau Ysbrydoli!, anfonwch e-bost at: inspire@learningandwork.org.uk

